Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Gwasanaeth Ysgolion

## Adroddiad ar yr Ymateb i Ymgynghoriad

## Cynnig i adeiladu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron a chau

## Ysgol Gynradd Ciliau Parc

## ac

## Ysgol Gynradd Dihewyd

## ac

## Ysgol Gynradd Felin-fach

## Awst 2019

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol rhwng 5 Mehefin ac 16 Gorffennaf 2019 ynghylch y cynnig i adeiladu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron a fyddai'n arwain at gau Ysgol Gynradd Ciliau Parc, Ysgol Gynradd Dihewyd ac Ysgol Gynradd Felin-fach ar ddiwedd tymor yr haf 2022.

Mae'r ymgynghoriad yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru – Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Diben y ddogfen hon yw:

- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
- Ymateb i'r materion drwy gynnig eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi hynny;
- Cadarnhau'n llawn ymateb Estyn i'r ymgynghoriad;
- Ymateb i sylwadau Estyn drwy gynnig eglurhad, diwygio'r cais neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi hynny; a
- Chynnig asesiad pellach o'r cynnig, yr opsiynau amgen yn y ddogfen ymgynghori ac unrhyw gynigion amgen eraill a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o 10 ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ceir rhestr gynhwysfawr o gwestiynau a gyflwynwyd, cynigion amgen a sylwadau ar yr opsiynau amgen a gyflwynwyd, yn ogystal ag ymateb yr Awdurdod Lleol yn Atodiad A.

## Ymatebion y Plant

Cyhoeddwyd fersiwn ar gyfer plant a dosbarthwyd y fersiwn honno i'r cynghorau ysgol. Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori gyda disgyblion oedd yn aelodau o Gynghorau Ysgol Ciliau Parc, Dihewyd a Felin-fach ar 5 Gorffennaf 2019. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad A.

## Ymateb Estyn

Yn unol â'r cod, anfonwyd copi o'r Ddogfen Ymgynghori at Estyn er mwyn iddynt roi eu sylwadau. Yn eu hymateb, ystyriodd Estyn ystod lawn o gwestiynau allweddol mewn perthynas â'r cynnig.

Isod ceir crynodeb a chasgliadau Estyn:

Cred Estyn y bydd plant yr ardal yn mwynhau safonau addysg, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth gystal neu well na'r sefyllfa bresennol yn sgil y cynnig hwn.

Cydnabyddir ymateb manwl Estyn.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yn Atodiad B y ddogfen hon.

## Ysgolion Gwledig

Mae ysgolion Ciliau Parc, Dihewyd a Felin-fach yn ysgolion gwledig yn ôl diffiniad 'Cod Trefniadaeth Ysgolion' 011/2018 Llywodraeth Cymru.

Yn ôl y cod, rhaid i'r Awdurdod Lleol, sef y cynigydd, gynnal asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a gafodd eu cynnwys yn y ddogfen gynnig, ac ystyried unrhyw wybodaeth bellach a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad neu fel arall.

Mae'r asesiad fel a ganlyn:

## Opsiynau Amgen

***Sefydlu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron a honno wedi ei lleoli ar Gampws y Ganolfan Addysg Broffesiynol yn Felin-fach ar gyfer disgyblion Ciliau Parc, Dihewyd a Felin-fach***

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg**

Rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan y byddai disgyblion yn elwa ar gyfleusterau gwell a hynny mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys llai o ystod oedran.

Yn ychwanegol at hyn, byddai disgyblion yn elwa ar ddarpariaeth feithrin, fodd bynnag byddai'r cynnig yn amodol ar ymgynghoriad statudol i newid yr ystod oedran i 3-11 oed.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**

Gallai'r cynnig leihau'r cyfleusterau sydd wedi eu lleoli o fewn cymunedau lleol, serch hynny, byddai cyfleusterau gwell, a gynigir gan ysgol ardal, ar gael at ddefnydd y gymuned.

Mae'r theatr hefyd wedi ei lleoli ar yr un safle.

**Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol**

Rhagwelir y bydd rhai disgyblion, o bosibl, yn gorfod teithio ymhellach i fynychu'r ysgol.  Serch hynny, ni ddylai'r pellter fod yn fwy na 5 milltir ar gyfartaledd.

***Ffederasiwn Ffurfiol rhwng Ysgolion Ciliau Parc, Dihewyd a Felin-fach***

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg**

Rhagwelir na fyddai fawr o effaith ar ansawdd a safonau addysg, serch hynny, cydnabyddir y byddai'r ysgolion yn gallu rhannu adnoddau, arbenigedd ac arfer orau.

Byddai disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gydag ystod oedran eang ac ni fyddai darpariaeth ar gyfer disgyblion 3 oed.

Un pennaeth fyddai gan ysgol sydd wedi ffedereiddio'n ffurfiol ac un Corff Llywodraethol a gallai hyn gynnig mecanwaith effeithiol a chyfrifol i ysgolion rannu adnoddau, gan gynnwys arbenigedd staff a chyllidebau, byddai'n rhyddhau capasiti ar yr uwch dîm rheoli ac yn sicrhau arbedion maint ac arbedion effeithiolrwydd.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**

Rhagwelir na fyddai unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r 3 ysgol yn parhau, felly byddent ar gael ar gyfer digwyddiadau cymunedol.

**Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol**

Ni fyddai unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r 3 ysgol yn parhau.

***Ysgol Aml safle***

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg**

Rhagwelir na fyddai fawr o effaith ar ansawdd a safonau addysg, serch hynny, cydnabyddir y byddai'r 3 ysgol yn gallu rhannu mwy ar adnoddau, arbenigedd ac arfer orau.

Byddai disgyblion yn parhau i gael eu dysgu mewn dosbarthiadau yn cynnwys ystod oed eang ac ni fyddai darpariaeth ar gyfer disgyblion 3 oed

Un pennaeth fyddai gan ysgol aml safle hefyd ac un Corff Llywodraethol ac fe allai hyn gynnig mecanwaith effeithiol a chyfrifol i ysgolion rannu adnoddau, gan gynnwys arbenigedd staff a chyllidebau, byddai'n rhyddhau capasiti ar yr uwch dîm rheoli ac yn sicrhau arbedion maint ac arbedion effeithiolrwydd.

Er mwyn creu un ysgol ar dri safle gwahanol, byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad statudol i gau'r tair ysgol ac i agor fel un ysgol.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**

Rhagwelir na fydd unrhyw effaith ar y gymuned, gan y byddai'r tair ysgol yn parhau ac felly byddent ar gael ar gyfer digwyddiadau cymunedol.

**Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol**

Rhagwelir na fydd unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y bydd y 3 ysgol yn parhau.

***Ymestyn Ysgol Ciliau Parc ac Ysgol Felin-fach i greu lle i ddisgyblion Ysgol Dihewyd a chau Ysgol Dihewyd***

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg**

Rhagwelir y gallai'r effaith ar ansawdd a safonau addysg fod yn un cadarnhaol gan y byddai disgyblion yn elwa o well cyfleusterau a hynny mewn dosbarthiadau a fyddai'n cynnwys llai o ystod oedran.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**

Gallai'r cynnig leihau'r cyfleusterau sydd yng nghymuned Dihewyd

**Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol**

Rhagwelir y byddai rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach ond ni ddylai'r pellter fod yn fwy na 5 milltir ar gyfartaledd. Mae'n debyg y byddai gan fwy o ddisgyblion hawl i gludiant am ddim.

***Sefydlu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron ar gyfer disgyblion Ysgol Ciliau Parc ac Ysgol Felin-fach gydag Ysgol Dihewyd yn aros fel ysgol ar wahân, a heb fod yn rhan o'r cynnig***

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg**

Rhagwelir y gallai'r effaith ar ansawdd a safonau addysg fod yn un cadarnhaol, gan y byddai disgyblion yn elwa o gyfleusterau gwell, mewn dosbarthiadau a fyddai'n cynnwys llai o ystod oedran. Byddai hyn yn berthnasol i ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Ciliau Parc ac Ysgol Felin-fach.

O safbwynt Ysgol Dihewyd, nid yw'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r mater o gael un cyfnod allweddol cyfan mewn un dosbarth.

Mae niferoedd y disgyblion a ragwelir yn Ysgol Dihewyd yn arwyddo y gallai dyfodol yr ysgol fod yn fregus iawn.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**

Gallai'r cynnig leihau'r cyfleusterau sydd wedi eu lleoli o fewn cymunedau Ciliau Parc a Felin-fach, serch hynny byddai gwell cyfleusterau, a ddaw yn sgil ysgol newydd, ar gael at ddefnydd y gymuned. Byddai Ysgol Dihewyd yn dal ar gael fel cyfleuster cymunedol.

**Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol**

Rhagwelir y byddai'n rhaid i ddisgyblion deithio ymhellach, serch hynny ni ddylai'r pellter fod yn fwy na 5 milltir ar gyfartaledd. Mae'n debygol y byddai mwy o ddisgyblion â hawl i gludiant am ddim.

## Opsiynau amgen a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad

Adeiladu estyniad i'r ddwy ysgol sydd â'r niferoedd lleiaf o lefydd gwag, sef Ysgol Ciliau Parc ac Ysgol Dihewyd.

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| O safbwynt ariannol, arbedion effeithlonrwydd posibl, oherwydd bod llai o safleoedd | Mae arian 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor i adeiladu ysgol ardal newydd ac i beidio ag ymgymryd â phrosiectau adnewyddu |
| Cadw hunaniaeth yr ysgolion a'u presenoldeb yn y gymuned o ran Ciliau Parc a Dihewyd | Dim darpariaeth ar gyfer plant 3 oed heb gynnal ymgynghoriad statudol i newid ystod oedran y ddwy ysgol |
| Byddai arian cyfalaf a gâi ei dderbyn wrth werthu Ysgol Felin-fach yn cael ei ailfuddsoddi mewn addysg | Cyfyngiadau safle posibl ar y ddau safle |

## Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Mae'n bosibl y byddai effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg pe gellid addysgu disgyblion mewn dosbarthiadau yn cynnwys llai o ystod oedran.

## Yr effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r cynnig leihau defnydd cymunedol Ysgol Felinfach.

## Yr effaith debygol ar drefniadau teithio gwahanol

Byddai rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach, serch hynny byddai costau teithio yn codi gan y byddai gan fwy o ddisgyblion yr hawl i gludiant am ddim.

**Adeiladu ysgol newydd i ddisgyblion Ysgol Ciliau Parc**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Byddai arian cyfalaf a gâi ei dderbyn wrth werthu'r safle presennol yn cael ei ailfuddsoddi mewn addysg | Mae arian 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor i adeiladu ysgol ardal newydd i gynnwys Ysgol Dihewyd ac Ysgol Felin-fach |
| Cadw hunaniaeth yr ysgolion a'u presenoldeb yn y gymuned o ran Ciliau Parc, Dihewyd a Felin-fach | Dim darpariaeth ar gyfer plant 3 oed heb gynnal ymgynghoriad statudol i newid yr ystod oedran |
| | Byddai Ysgol Dihewyd ac Ysgol Felin-fach yn parhau'n fregus oherwydd niferoedd isel y disgyblion |
| | Yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion ar hyn o bryd, byddai'r gost fesul disgybl yn uwch na chyfartaledd Ceredigion yn Ysgolion Dihewyd a Felin-fach |
| | Byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau yn cynnwys ystod oedran eang yn Nihewyd ac yn Felin-fach. |

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg**

Gallai'r effaith ar ansawdd a safonau addysg fod yn gadarnhaol i ddisgyblion Ciliau Parc gan y gallai'r disgyblion barhau i gael eu dysgu mewn dosbarthiadau yn cynnwys llai o ystod oedran.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**

Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar gymuned Ciliau Parc, gan y gallai ysgol newydd ddarparu gwell cyfleusterau cymunedol.

**Yr effaith debygol ar drefniadau teithio gwahanol**

Ni ragwelir unrhyw effaith ar drefniadau teithio

Wedi ystyried yr opsiynau amgen a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, erys y ffaith na fyddent yn mynd i'r afael â'r prif heriau a wynebir gan Ysgolion Ciliau Parc, Dihewyd a Felin-fach, fel y'u crynhoir isod:

- Mae disgwyl i niferoedd y disgyblion a ragwelir yng Nghiliau Parc gynyddu'n sylweddol yn ystod y pedair blynedd nesaf, gyda chwymp yn y niferoedd a ragwelir yn Nihewyd ac yn Felin-fach
- Ar hyn o bryd, mae gan ysgolion Dihewyd a Felin-fach un dosbarth yn y cyfnod sylfaen ac un dosbarth yng nghyfnod allweddol 2. Mae gan ysgol Ciliau Parc ddau ddosbarth o fewn y cyfnod sylfaen a dau ddosbarth yng nghyfnod allweddol 2
- Ceir amrywiad mawr gydag un ysgol dros gapasiti a dwy ysgol dan gapasiti yn ôl CYBLD 2019;
    - Ciliau Parc – 4 lle dros y capasiti
    - Dihewyd – capasiti ar gyfer 3 disgybl
    - Felin-fach – capasiti ar gyfer 20 disgybl
- Amrywiad arwyddocaol yn y gost fesul disgybl ar gyfer 2018/19 – Cyfartaledd Ceredigion yw £3,761;
    - Ciliau Parc - £3,186
    - Dihewyd - £5,346
    - Felin-fach - £4,216

Yr ymateb mwyaf addas i'r heriau a amlinellwyd yw gweithredu'r cynnig fel y'i cyflwynwyd a chreu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron a therfynu darpariaeth addysgol yn Ysgol Ciliau Parc, Ysgol Dihewyd ac Ysgol Felin-fach, oherwydd y ffactorau canlynol:

- Bydd y ddarpariaeth yn cael ei chadw ar wahân i bob cyfnod allweddol, gyda disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau yn cynnwys llai o ystod oedran
- Byddai ysgol ardal yn gallu ymateb yn well i'r galw am lefydd i ddisgyblion yr ardal
- Byddai gostyngiad yng nghyfartaledd y gost fesul disgybl – amcangyfrifir mai'r gost fyddai £3,298

Ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 5 Mehefin a 16 Gorffennaf 2019.

| Ymateb | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
|---|---|
| Cefnogir y cynnig i adeiladu ysgol ardal newydd yn lle'r tair ysgol ar yr amod bod y lleoliad yn addas ac o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Aberaeron.<br><br>Serch hynny, mae pryder ynghylch niferoedd y disgyblion a ragwelir ar gyfer Ysgol Ciliau Parc erbyn 2023 | Y cynnig yw adeiladu ysgol newydd ar safle newydd ac fe fydd o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Aberaeron.<br><br>Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, y bwriad yw y bydd yr ysgol newydd ar agor erbyn 2023, felly nid yw'r niferoedd a ragwelir yng Nghiliau Parc yn fater o bryder. |
| Mae'n drist y bydd tair ysgol gynradd sydd wedi gwasanaethu'r cymunedau yn cau yn y pendraw, er mwyn gwireddu'r cynnig i gael ysgol ardal newydd.<br><br>Serch hynny, cydnabyddir bod cyfyngiadau ariannol, cyflwr adeiladau a niferoedd disgyblion i gyd yn ffactorau sy'n cyfrannu at yr angen am ysgol ardal newydd yn y cylch. | Er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cynghorwyr yn y Strategaeth Gorfforaethol, mae'n rhaid i rai ysgolion bach gwledig gau, er mwyn darparu cyfleusterau'r 21$^{ain}$ ganrif. Cydnabyddir bod yr ysgolion yma wedi ac yn cynnig gwasanaeth da i'w cymunedau.<br><br>Cydnabyddir y sylw. |
| Yn rhoi cefnogaeth lwyr i'r cynnig, cyhyd ag y bydd yn ysgol newydd mewn safle canolog yn Nyffryn Aeron, gyda chyfleusterau sy'n deilwng o'r disgyblion ac y bydd o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Aberaeron. | Y cynnig yw adeiladu ysgol newydd mewn safle newydd canolog yn Nyffryn Aeron a bydd wedi ei lleoli o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Aberaeron. |
| Cydnabyddir y cyfleoedd y bydd ysgol ardal newydd yn eu darparu i ddisgyblion a'u teuluoedd.<br><br>Y gobaith yw y bydd yr ysgol yn annog datblygiadau eraill yn yr ardal a fydd yn cyfoethogi ac o fudd i drigolion yr ardal. Bydd yr ysgol hefyd yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael lle cadarn yn y gymuned, gan gyfrannu at ei | Nodwyd y sylw. |

| | |
|---|---|
| chynaliadwyedd.<br><br>Cydnabyddir bod cau ysgolion bach mewn ardal yn golled fawr, serch hynny rhaid gwneud pob ymdrech yn lleol i gynnal a dod â bywyd newydd i'r cymunedau.<br><br>Mae angen cynnal lefelau staffio ar eu lefel bresennol, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn parhau i dderbyn yr addysg orau bosibl ac er mwyn sicrhau a hybu'r iaith Gymraeg yn yr ardal. | Er y gall maint dosbarthiadau, ar gyfartaledd, fod yn fwy mewn ysgol ardal nag yn y tair ysgol ar hyn o bryd, gall niferoedd ychwanegol o ddisgyblion yn gyffredinol caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn staffio i gwrdd ag anghenion disgyblion. |
| Mae angen i'r Cyngor ystyried a thalu sylw dyledus i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ddarparu llwybr diogel i'r ysgol. | Rhoddir ystyriaeth ddyledus i ofynion y ddeddf wrth ddatblygu prosiectau ac mae llwybr diogel i'r ysgol yn amod gorfodol wrth adeiladu ysgolion newydd. |
| Bydd cau ysgol fach, wledig yn cael effaith andwyol ar y gymuned a byddai angen darparu cludiant i ysgol ardal.<br><br>Awgryma ymchwil fod dosbarthiadau bach, cymysg o ran oed yn well i ddisgyblion.<br><br>Mae yna ragdybiaeth mai rhesymau ariannol sy'n gyfrifol am gau ysgolion, gan gydnabod bod y gost fesul disgybl yn uwch mewn ysgolion gwledig na chost gyfartalog y sir. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae pob ysgol fach, wledig yn ei wneud i'r gymuned. Cydnabyddir y bydd angen darparu cludiant i'r ysgol yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod o'r Cartref i'r Ysgol.<br><br>Gwnaed llawer o ymchwil i effaith maint dosbarthiadau, y mae llawer ohono'n gwrth-ddweud i'w gilydd. Dywed Andreas Schleicher, Cyfarwyddwr Addysg a Sgiliau yn yr *OECD*: "Ymhobman, mae athrawon, rhieni a llunwyr polisi yn ffafrio dosbarthiadau bach fel yr allwedd i addysg well a mwy personol ... ac eto, nid yw canlyniadau Pisa yn dangos unrhyw berthynas rhwng maint dosbarth a canlyniadau dysgu, nid o fewn nac ar draws gwledydd."<br>Dim ond un ystyriaeth ymysg nifer yw hyfywedd ariannol. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cadarnhau pa mor bwysig yw sicrhau bod ariannu addysg yn gost effeithiol. Mae niferoedd y disgyblion, cyflwyno'r cwricwlwm, nifer y lleoedd gwag a chyflwr yr adeiladau hefyd wedi eu hystyried. |
| Ddim yn gallu ffurfio barn am y cynnig heb wybod lle mae'r safle arfaethedig. | Hyd nes y cwblheir yr ymgynghoriad ac y cymeradwyir y cynnig gan aelodau'r |


| | |
|---|---|
| Mae celu manylion y safle yn dangos amarch tuag at y cyngor cymuned.<br><br>O dderbyn manylion am yr ysgol arfaethedig, yna gellir llunio ymateb a fydd yn cynnwys:<br>• Yr effaith ar natur ac ansawdd addysg ffurfiol<br>• Yr effaith ar natur ac ansawdd addysg anffurfiol<br>• Cynllunio a'r effaith ar yr amgylchedd<br>• Sut mae'n cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch, gan gynnwys y campws ac asesiad trafnidiaeth<br>• Y berthynas â'r economi leol | Cyngor, ni ellir clustnodi na phrynu safle addas. Nid yw'r wybodaeth, felly, yn cael ei chelu rhag y cyngor cymuned.<br><br>Bydd y cynnig ar gyfer darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol yn derbyn cyngor a chefnogaeth gan staff perthnasol a chymwys o fewn yr awdurdod.<br>Bydd yr effaith amgylcheddol a chydymffurfiaeth o ran iechyd a diogelwch i gyd yn faterion y bydd yn rhaid eu hystyried yn ystod y cyfnodau datblygu a chynllunio.<br>Caiff yr uchod eu cefnogi gan Gorff Llywodraethol Cysgodol a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth gref o'r gymuned.<br>Mae buddion cymunedol a'r berthynas gyda chymunedau lleol a'r economi leol yn cael eu cynnwys o fewn y broses dendro. |
| Gwrthwynebir y cynnig i adeiladu ysgol ardal, gan y bydd cau ysgolion bach gwledig yn gorfodi rhieni i anfon eu plant i ysgolion gyda nifer fawr o ddisgyblion ym mhob dosbarth.<br><br>Ni fydd disgyblion byth yn derbyn yr addysg gyfoethog, gefnogol yr elwant ohoni ar hyn o bryd mewn ysgol fach, o fod yn ddisgyblion mewn ysgol fawr. Mewn ysgol fach, mae disgyblion yn datblygu yn unigolion hyderus ac fe dynnwyd sylw at hyn yn arolwg diweddar Estyn a gyfeiriodd at ymddygiad cefnogol y disgyblion.<br><br>Cyfeiriodd Estyn hefyd at integreiddio i'r gymuned a rôl yr ysgol mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol ac elusennol. Byddai'n amhosibl atgynhyrchu hyn mewn ysgol ardal. | Mae pob un o ysgolion ardal cynradd Ceredigion wedi ei dynodi yn ysgol wledig gan Lywodraeth Cymru. Y gymhareb gyfartalog athro/disgybl yng Ngheredigion yn 2018 oedd 19.2 mewn cymhariaeth â 22 ar gyfer Cymru gyfan.<br>Mae adroddiad diweddar gan Estyn yn sgil arolygu ysgol newydd a ddarparwyd yng Ngheredigion drwy arian Band A yr $21^{ain}$ Ganrif yn nodi bod yr ysgol 'yn gymuned gynhwysol iawn, hynod ofalgar..... Yn greiddiol i'w gwaith, mae ei darpariaeth arbennig ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad…mae bron pob disgybl yn…dangos parch a gofal at eraill ac [yn] arddangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu.'<br>Mae arolwg ysgol ardal gynradd newydd yng Ngheredigion hefyd yn nodi 'Mae'r pennaeth ynghyd â'r staff, disgyblion, Llywodraethwyr ac aelodau'r cymunedau lleol wedi cydweithio'n hynod effeithiol i greu ysgol lwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at greu ysgol gymunedol hapus a chynhwysol….' |

| | |
|---|---|
| Mae rhieni wedi cadarnhau y dylent gael y dewis i anfon eu plant i ysgol fach wledig neu i ysgol ardal fawr. Pe caent eu hamddifadu o'r dewis hwn, yna byddent yn anfon eu plant i ysgol fach arall neu byddent yn addysgu eu plant gartref. | Mae dros 75% o ysgolion Ceredigion wedi eu dynodi yn ysgolion bach gwledig. Darperir cefnogaeth ac arweiniad gan yr Awdurdod Lleol i bob rhiant sy'n penderfynu addysgu gartref. |
| Mewn cymhariaeth ag adeiladau newydd diweddar, credir bod Ysgol Dihewyd eisoes yn addas at ddiben cyflwyno addysg yr 21 $^{ain.}$ | Nodau ac amcanion rhaglen Band B yr unfed ganrif ar hugain yw:<br>• Cyflwyno amgylcheddau dysgu i blant a phobl ifanc a fydd yn ei gwneud yn bosibl gweithredu strategaethau gwella ysgolion yn llwyddiannus a chael deilliannau addysgol gwell;<br>• System addysg gynaliadwy drwy ddefnyddio adnoddau'n well er mwyn gwella effeithiolrwydd a chost effeithlonrwydd yr ystâd addysgol; a<br>• Safon yn perthyn i ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif a fydd yn gostwng costau rheolaidd, y defnydd o ynni ac allyriadau carbon.<br>• Mae Ysgol Dihewyd wedi'i lleoli mewn hen adeilad sydd ag effeithlonrwydd ynni gwael. O ganlyniad, nid yw'n cydymffurfio â llawer o nodau ac amcanion Rhaglen 21ain Ganrif Band B. |
| Yr ysgol yw calon y pentref – mae'n annog y genhedlaeth iau i aros a symud i'r ardal, mae'n hanfodol i'r economi leol, yr Eglwys, y Capel, y Clwb Ffermwyr Ifanc, Neuadd y pentref ac yn darparu'r unig siop yn y pentref. | Cydnabyddir yr integreiddio cymunedol a'r profiadau addysgol amrywiol oddi mewn a thu allan y dosbarth. |
| Dylid gweithredu'r opsiwn i greu ffederasiwn ffurfiol. | Mae'r opsiwn i greu ffederasiwn ffurfiol wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori, fodd bynnag yr opsiwn a ffefrir gan y Cabinet a'r un y tybiant a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau yw adeiladu ysgol ardal newydd ar safle newydd. |

<table>
<tr>
<td>Nid yw'r cyfeiriad cyson at niferoedd yn gostwng yn Ysgol Dihewyd yn wir. Dylai'r niferoedd sy'n cynnwys y sawl sydd wedi eu cofrestru gyda'r Swyddog Derbyn a brodyr a chwiorydd, fod fel a ganlyn:
<table>
<tr><td>Ionawr 2019</td><td>Ionawr 2020</td><td>Ionawr 2021</td><td>Ionawr 2022</td></tr>
<tr><td>32</td><td>32</td><td>33</td><td>32</td></tr>
</table>
</td>
<td>Yn seiliedig ar ffigyrau a ddarparwyd gan yr adran dderbyn, sy'n cynnwys pob ffurflen dderbyn a dderbyniwyd hyd yma ac sy'n ystyried disgyblion blwyddyn 6 sy'n gadael bob blwyddyn, mae'r rhifau fel a ganlyn:
<table>
<tr><td>Ionawr 2019</td><td>Ionawr 2020</td><td>Ionawr 2021</td><td>Ionawr 2022</td></tr>
<tr><td>32</td><td>31</td><td>32</td><td>29</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Fel unigolyn sy'n gweithio mewn rôl gefnogol mewn nifer o ysgolion mawr, gan gynnwys ysgolion ardal, nodir nad yw disgyblion yn hoffi ysgolion ardal.</td>
<td>Arolygwyd dwy ysgol ardal gan Estyn yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19 a barnwyd bod agweddau disgyblion tuag at ddysgu a llesiant yn rhagorol yn y ddwy ysgol. Mae ymateb disgyblion i'r cynnig yn gadarnhaol.</td>
</tr>
</table>

# ADBORTH YMGYNGHORIAD Y PLANT

Ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgolion Cynradd Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach ac agor Ysgol Ardal newydd yn Nyffryn Aeron



# CHILDREN'S CONSULTATION FEEDBACK

On the proposed closure of Ciliau Parc, Dihewyd and Felinfach Primary Schools and to build a new Area School in the Aeron Valley

**Ymwelwyd â phlant Ysgolion Cynradd Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach ar 5 Orffennaf 2019 i gasglu eu barn ar y cynnig.**

The pupils of Ciliau Parc, Dihewyd and Felinfach Primary Schools were visited on 5 July 2019 to obtain their opinions on the proposal.

## YMATEB Y DISGYBLION / PUPIL RESPONSES

| Beth fyddech yn colli am eich ysgol? | What will you miss about your school? |
|---|---|
| Dim | Nothing |
| Edrych ymlaen i'r ysgol newydd | Looking forward to the new school |
| Hapus | Happy |
| Crysau-T | T-shirts |
| Ffrindiau | Friends |
| Athrawon | Teachers |
| Bwyd / ffreutur | Food / Canteen |
| Lle Chwarae | Playing area |
| Popeth | Everything |
| Cwtch | 'Cwtch' |
| Pêl droed | Football |

| Faint o amser mae'n cymryd i chi fynd i'r Ysgol? | How long does it take you to get to school? |
|---|---|
| Llai na 5 munud: 80% | Less than 5 minutes: 80% |
| Mwy na 10 munud: 20% | More than 10 minutes: 20% |

| Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg yn yr ysgol? | How often to do you speak Welsh in the school? |
|---|---|
| Bob amser/bob dydd | All day/all of the time |

| Sut yr ydych yn teimlo am wneud ffrindiau newydd gyda phlant o ysgol arall? |
|---|
| Hapus / Hyderus / Diolchgar / Da / Edrych ymlaen |
| Ofnus / Swil |
| Ofn colli ffrindiau |
| Bwlio |
| Drist |
| Siaradus / 'Giggly' |
| Rhyfedd |

| How do you feel about making new friends with children from another school? |
|---|
| Happy / Confident / Thankful / Good / Looking forward |
| Nervous / shy |
| Afraid of losing friends |
| Bullying |
| Sad |
| Talkative / 'Giggly' |
| Odd |

| A ydych eisoes yn gwneud gweithgareddau gyda'r ysgolion cyfagos? |
|---|
| Ydyn |

| Do you already participate in activities with the neighbouring schools? |
|---|
| Yes |

| Sut allwn eich helpu i ymuno gyda phlant o ysgol arall? |
|---|
| Diwrnod chwarae |
| Celf |
| Ymarfer corff |
| Canu / Cerdd |
| Pêl droed / Tenis |
| Trip - Llangrannog / Oakwood |
| Bwyd / te prynhawn |

| *How can we help you to meet children from other schools?* |
|---|
| Play days |
| Art |
| Physical exercise |
| Singing / Music |
| Football / Tennis |
| Trip - Llangrannog / Oakwood |
| Food / afternoon tea |

| Beth sy'n eich cyffroi am fynd i ysgol ardal newydd? |
|---|
| Iard fwy o faint / adnoddau chwarae |
| Crys-T newydd |
| Mwy o le tu fewn |
| Mwy o ddarpar ymarfer corff |
| Mwy o mathemateg |
| Mwy o ffrindiau / plant gwahanol |
| Mwy o blant - dim ond 5 nawr yn Blwyddyn 6 felly fwy mewn blwyddyn |
| Cystadlu mewn Eisteddfodau |
| Pêl droed a rygbi / Chwaraewyr newydd |
| Bydd cefndryd yn yr ysgol |
| Bwyd |
| Coed |
| Teithiau |
| Darganfod pethau newydd |
| Archwilio |
| Ysgol newydd |

| What excites you about going to a new area school? |
|---|
| Bigger yard / playground |
| New T-shirts |
| More room inside |
| More physical exercise equipment |
| More maths |
| More friends / different children |
| More children - only 5 now in Year 6 so more children in a year group |
| Competing in Eisteddfodau |
| Football and Rugby / new players |
| Having cousins in the school |
| Food |
| Trees |
| Trips |
| Discovering new things |
| Exploring |
| New school |

| A oes gennych unrhyw ofidion am fynd i'r ysgol newydd? |
|---|
| Colli ffrindiau / ffrindiau ddim i gyd gyda'i gilydd |
| Bwlian |
| Athrawon newydd |
| Ymweliad i'r ysgol |
| Na |

| Do you have any concerns about going to a new school? |
|---|
| Loosing friends / friends not being all together |
| Bullying |
| New teachers |
| Visit to the school |
| No |

| A ydych yn gofidio am deithio i'r ysgol newydd? |
| --- |
| Ddim gwybod y ffordd / mynd ar goll |
| Na |

| Are you worried about travelling to the new school? |
| --- |
| Not knowing the way / getting lost |
| No |

| A oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill? |
| --- |
| Be fydd maint yr ysgol newydd? |
| Faint o erwau fydd? |
| Faint o blant fydd? |
| Faint o athrawon fydd? |
| A fydd gennym toiledau newydd? |
| Gwisg Ysgol? |
| Be fydd yn digwydd i'r ysgol yma? |
| Pryd fydd yr ysgol yn agor? |

| Do you have any other questions or comments? |
| --- |
| The size of the new school? |
| How many acres will there be? |
| How many children will there be? |
| How many teachers will there be? |
| Will we have new toilets? |
| The school uniform? |
| What will happen to our existing school? |
| When will the school open? |